

❖ ANGYLION YN RHAGFYNEGI

Luc 1:5–38

Yn yr Hen Destament mae angylion yn rhagfynegi geni ambell un – Ishmael, Isaac, Samson. Yr un yw'r patrwm bob tro, pum elfen – angel yn ymddangos, y person sy'n ei weld yn cael braw, yr angel yn rhagfynegi'r geni, y person yn methu deall, a'r angel yn rhoi arwydd. Dyma ffordd ffurfiol yr Hen Destament o ddweud bod rhai personau mor bwysig yn hanes pobl Dduw fel bo'u bywydau, mae'n rhaid, wedi eu rhagarfaethu gan Dduw.

Roedd Ioan Fedyddiwr yn ei ddydd, ac wedyn, yn berson o bwys mawr ym Mhalestina. Er na chododd proffwyd yn y wlad ers oesoedd, nid amheuoedd neb nad oedd Ioan yn un. Roedd yn ffigwr carismataidd a ddenodd ddisgyblion ato – gall fod rhai o ddisgyblion Iesu wedi ei ddilyn ef yn gyntaf. Ef a fedyddiodd Iesu, a bu farw'n ferthyr. Daeth dilynwy'r Ioan yn fudiad, ac weithiau, ar ôl ei ddydd ef, deuai pregethwyr cyntaf yr efengyl ar draws cymunedau ohonynt.

Nid oedd modd i'r Eglwys Fore, hyd yn oed pe mynnai, beidio ag arddel mawredd Ioan. Ond roedd eisiau esbonio'i berthynas â Iesu hefyd, mai rhagflaenydd Iesu oedd ef, a bod Iesu'n fwy nag ef.

Yn ei efengyl ef, mae Luc yn cydnabod mawredd Ioan trwy roi hanes am angel, yr un angel ag a fyddai'n ymddangos i fam Iesu (Gabriel), yn ymddangos i'w fam ef, Elisabeth, i ragfynegi ei eni. Ac mae Luc yn pwysleisio mawredd Ioan, nid yn unig trwy wneud yr hanes yna yn rhan o'r efengyl, ond trwy ei roi ar ddechrau'r efengyl. Yna'n union ar ôl yr hanes yna, mae Luc yn rhoi'r hanes am Gabriel yn ymddangos hefyd i Mair i ragfynegi geni Iesu, a thrwy wahaniaethau rhwng y ddau hanes, mae'n dangos bod Iesu'n fwy nag Ioan. Nid yw bod Iesu'n fwy nag Ioan o bwys tragwyddol i Gristnogion heddiw, ond yn y gwahaniaethau rhwng yr hanes am ymddangosiad Gabriel i Mair a'i hanes am ymddangosiad Gabriel i Elisabeth, dywed Luc bethau am Iesu sy'n neges i Gristnogion ym mhob oes.

Y gwahaniaeth mwyaf oedd modd eu cenhedlu. Roedd Elisabeth 'yn ddiffrwyth', ac 'wedi cyrraedd oedran mawr'. Ond roedd mam Samson hefyd yn ddiffrwyth, a Sara gwraig Abraham nid yn unig yn ddiffrwyth ond 'mewn gwith o oedran', ac 'arfer gwragedd wedi peidio iddi'. Pa anawsterau bynnag oedd rhaid eu goresgyn cyn i Elisabeth gael plentyn, roedd Duw eisoes wedi goresgyn yr anawsterau hynny yn y gorffennol. Ond nid oes unrhyw awgrym yn yr hanesion am y genedigaethau hynny nad yn ôl y broses naturiol y digwyddodd y cenhedlu. Eithr byddai Mair yn cenhedlu a hithau heb gael 'cyfathrach â gŵr'. (Nid geni gwyrthiol sydd yma, a bod yn fanwl, ond cenhedlu gwyrthiol.) Nid oes cenhedlu arall fel'na yn hanes Israel. Bydd y baban a ddaw, medd Luc, yn unigryw.

Gwahaniaeth arall yw fod yr angel, yn achos geni Ioan, wedi ymddangos i'w dad Sachareias. Offeiriad oedd Sachareias, ac yn y deml, yn Jerwsalem, yr ymddangosodd Gabriel iddo. Offeiriad, teml, Jerwsalem – cysylltiadau â'r gorffennol. Wrth ymddangos i Mair, ymddangosodd Gabriel i forwyn, ac ymddangosodd iddi yn Nasareth, tref nad oedd yr un disgwyliad ynghlwm wrthi yn yr Hen Destament. Bydd y baban a ddaw, medd Luc, yn ddechrau newydd.

Ac un gwahaniaeth arall. Dywedodd yr angel wrth Sachareias, '... y mae dy ddeisyfiad wedi ei wrando; bydd dy wraig Elisabeth yn esgor ar fab i ti.' I ŵr – a gwraig? – a oedd wedi dymuno ac erfyn am blentyn y ganed Ioan, ond roedd Iesu i'w eni i ferch ddibriod nad oedd hi ddim eisiau plentyn, eto beth bynnag. Dweud y mae Luc nad oedd dyheadau dynol yn ddim rhan o gwbl o genhedlu Iesu. Rhodd bur, ddigymysg ewyllys Duw ei hun fydd y baban a ddaw, medd Luc, ac yn llef y baban hwn, medd y diweddar, annwyl Pennar, bydd y...

... dragwyddol lef i'w chlywed,
llef y Chwythwr, y Deffrowr, y Bywhawr,
yn mynnu ein bod ni oll yn clywed yr Enw,
Enw'r holl enwau, 'Ydwyf yr hwn ydwyf'.